# DEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 3 – Ffurflenni, Ymholiadau Ac Asesiadau Treth

#### *Adran 37 – Trosolwg*

43. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r Rhan sy'n ymwneud ag asesu trethi datganoledig, sef dyletswyddau trethdalwyr, ffurflenni treth, ymholiadau gan ACC i ffurflenni treth, dyfarniadau ac asesiadau treth gan ACC a hawliadau am ymwared rhag treth, ac addaliadau a'r weithdrefn ar gyfer eu gwneud.

#### *Adrannau 38-39 – Dyletswyddau trethdalwyr i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel*

44. Mae adran 38 yn gosod dyletswydd ar berson y mae'n ofynnol iddo ddychwelyd ffurflen dreth ddatganoledig i gadw cofnodion sy'n angenrheidiol er mwyn llenwi'r ffurflen honno a'u storio'n ddiogel. Mae'n nodi'r mathau o gofnodion sydd i'w cadw ac am ba hyd y mae angen storio cofnodion yn ddiogel, a hefyd yn caniatáu i ACC bennu dyddiad cynharach. Gwneir darpariaeth hefyd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi'r cofnodion a'r dogfennau ategol y mae'n rhaid eu cadw a'u storio'n ddiogel.

45. Mae adran 39 yn nodi sut y gellir bodloni'r ddyletswydd ar drethdalwyr i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel, ac yn egluro y gellir eu storio'n ddiogel ar unrhyw ffurf ac mewn unrhyw fodd, er bod hyn yn ddarostyngedig i unrhyw amodau neu eithriadau a nodir mewn rheoliadau.

#### *Adrannau 40-42 – Ffurflenni treth*

46. Mae adran 40 yn diffinio'r "dyddiad ffeilio" fel y dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol dychwelyd ffurflen dreth ar gyfer treth ddatganoledig. Bydd deddfwriaeth yngl#n â'r trethi datganoledig penodol yn gwneud darpariaeth ynghylch beth yw'r dyddiad hwnnw o dan amgylchiadau penodol. Mae adran 41 yn galluogi person sy'n dychwelyd ffurflen dreth i'w diwygio, ac yn nodi sut a phryd y caniateir gwneud hynny. Rhaid i berson sy'n gwneud diwygiad wneud hynny o fewn 12 mis i'r dyddiad ffeilio neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y mae Gweinidogion Cymru wedi ei ragnodi drwy reoliadau. Ni chaniateir gwneud diwygiad pan fo ACC wedi dyroddi hysbysiad i ddiwygio ffurflen dreth yn ystod ymholiad i'r ffurflen dreth (adran 45(3)) neu pan fo hysbysiad cau wedi ei ddyroddi yn dilyn cwblhau ymholiad (adran 50).

47. Mae adran 42 yn caniatáu i ACC gywiro ffurflen dreth sy'n cynnwys gwallau neu hepgoriadau amlwg drwy roi hysbysiad i'r trethdalwr. Gallai gwall amlwg fod yn rhywbeth fel gwall rhifyddol er bod y ffigurau a ddefnyddiwyd i wneud y cyfrifiad yn gywir. Rhaid i ACC wneud cywiriad o fewn 9 mis i'r dyddiad y dychwelwyd y ffurflen dreth. Caiff y trethdalwr wrthod y cywiriad drwy ddiwygio'r ffurflen dreth neu drwy roi hysbysiad sy'n gwrthod y cywiriad, ar yr amod y gwneir hynny o fewn 3 mis i ddyddiad hysbysiad cywiro ACC.

### *Adrannau 43-45 – Hysbysiad a chwmpas ymholiad a diwygio ffurflen dreth yn ystod ymholiad*

48. Mae adran 43 yn darparu y caiff ACC wneud ymholiad i ffurflen dreth, ar yr amod yr hysbysir y person a ddychwelodd y ffurflen am y bwriad i gynnal ymholiad. Dim ond un ymholiad a ganiateir mewn perthynas ag unrhyw ffurflen dreth benodol (ac eithrio pan fo'r trethdalwr yn diwygio'r ffurflen; mewn achos o'r fath caniateir cynnal ymholiad arall i'r diwygiad hwnnw neu i faterion y mae'r diwygiad yn effeithio arnynt). Mae adran 44 yn nodi cwmpas a chyfyngiadau ymholiad ACC i ffurflen dreth.

49. Mae adran 45 yn darparu y caiff ACC ddiwygio ffurflen dreth yn ystod ymholiad os yw o'r farn bod swm y dreth ddatganoledig a nodir fel y swm sy'n daladwyar y ffurflen dreth yn annigonol a'i bod yn debygol y bydd treth ddatganoledig yn cael ei cholli os na wneir y diwygiad yn syth. Pan wneir ymholiad i ffurflen dreth ddiwygiedig, mae'n cyfyngu ar b#er ACC i ddiwygio'r ffurflen dreth i faterion sydd wedi eu diwygio gan y trethdalwr neu i rai y mae'r diwygiad yn effeithio arnynt. Caiff y cyfnod y mae ymholiad i ffurflen dreth yn mynd rhagddo ei ddiffinio at ddibenion adrannau 45 a 46. Rhaid i unrhyw swm o dreth ddatganoledig sy'n daladwy yn dilyn y diwygiad gael ei dalu o fewn 30 o ddiwrnodau i'r dyddiad y mae ACC yn dyroddi hysbysiad am y diwygiad.

### *Adrannau 46-49 – Atgyfeirio at dribiwnlys yn ystod ymholiad*

50. Mae adran 46 yn darparu ar gyfer atgyfeirio unrhyw gwestiynau ynghylch y ffurflen dreth yn ystod ymholiad at y tribiwnlys (fel y'i diffinnir yn adran 192) er mwyn iddo ddyfarnu arnynt. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r hysbysiad atgyfeirio gael ei roi ar y cyd gan y person perthnasol ac ACC. Bydd rheolau'r tribiwnlys yn gwneud darpariaeth ynghylch y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn atgyfeiriad. Mae adran 47 yn galluogi'r naill barti neu'r llall i dynnu hysbysiad atgyfeirio a wnaed o dan yr adran flaenorol yn ôl.

51. Mae adran 48 yn nodi effaith atgyfeiriad o dan adran 46 ar ymholiad. Mae'n darparu na chaniateir gwneud hysbysiad cau o dan adran 50 neu gais am gyfarwyddyd i ddyroddi hysbysiad cau o dan adran 51 wrth i achos o dan adran 46 fynd rhagddo, ac mae'n diffinio ystyr "mynd rhagddo" yn y cyd-destun hwn.

52. Mae adran 49 yn darparu bod dyfarniad y tribiwnlys ynghylch cwestiwn o dan adran 46 yn rhwymo'r partïon, ac na ellir ailedrych arno os apelir yn erbyn canlyniad yr ymholiad (oni fo'n fater y byddai'r tribiwnlys yn caniatáu ailedrych arno pe bai wedi gwneud penderfyniad rhagarweiniol yn ei gylch mewn apêl arferol). Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ACC roi ystyriaeth i'r dyfarniad wrth ddod i gasgliadau ynghylch yr ymholiad ac wrth wneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen dreth.

### *Adrannau 50-51 – Cwblhau ymholiad*

53. Mae adran 50 yn darparu ar gyfer cwblhau ymholiad. Mae'n ofynnol i ACC ddyroddi hysbysiad cau i'r person a ddychwelodd y ffurflen dreth unwaith y bydd ymholiad wedi ei gwblhau. Rhaid i hysbysiad cau ddatgan a yw'n ofynnol diwygio'r ffurflen ai peidio, a rhaid iddo wneud unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol. Rhaid i unrhyw dreth sy'n daladwy o ganlyniad i ddiwygiad a wnaed gan yr hysbysiad cau gael ei thalu o fewn 30 o ddiwrnodau i'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.

54. Mae adran 51 yn darparu y caiff y person a ddychwelodd y ffurflen dreth wneud cais i'r tribiwnlys am gyfarwyddyd y dylai ACC ddyroddi hysbysiad cau. Rhaid i'r tribiwnlys roi cyfarwyddyd oni bai ei fod yn fodlon bod gan ACC seiliau rhesymol dros beidio â gwneud hynny. Bydd rheolau'r tribiwnlys yn nodi'r weithdrefn ar gyfer cais o'r fath.

### *Adrannau 52-53 – Dyfarniadau ACC*

55. Mae adran 52 yn darparu y caiff ACC ddyfarnu ar swm y dreth ddatganoledig sydd i'w chodi pan fo'n credu bod treth ddatganoledig i'w chodi ar berson ac nad yw'r person hwnnw wedi ffeilio ffurflen dreth erbyn y dyddiad gofynnol. Rhaid rhoi hysbysiad am

y dyfarniad i'r person y credir ei fod yn agored i dalu'r dreth ddatganoledig. Rhaid i'r person wneud y taliad o fewn 30 o ddiwrnodau i'r dyddiad y dyroddwyd yr hysbysiad. Ni chaniateir gwneud dyfarniad fwy na 4 blynedd ar ôl y dyddiad y dylai ffurflen dreth fod wedi ei ffeilio gydag ACC.

56. Mae adran 53 yn darparu, pan fo person yn dychwelyd ffurflen dreth a hunanaseswyd ar ôl i ACC wneud dyfarniad, y bydd y ffurflen dreth yn disodli dyfarniad ACC. Nid yw'r ddarpariaeth yn gymwys pan fo person yn dychwelyd ffurflen dreth dros 4 blynedd ar ôl i'r p#er i wneud y dyfarniad ddod yn arferadwy gyntaf gan ACC, neu dros 12 mis ar ôl y dyddiad y dyroddwyd y dyfarniad, pa un bynnag sydd hwyraf. Mewn amgylchiadau pan fo achos wedi cychwyn i adennill treth yn dilyn dyfarniad gan ACC, a bod ACC yn derbyn ffurflen dreth sy'n disodli ei ddyfarniad tra bo'r achos hwnnw'n mynd rhagddo, caniateir i'r achos barhau fel pe bai'n achos i adennill cymaint o'r dreth hunanasesiedig ag sy'n ddyledus ac nad yw wedi ei thalu eto. Gwneir hynny er mwyn sicrhau nad oes angen i ACC roi'r gorau i'r achos hwnnw ac ailddechrau, dim ond am fod ffurflen dreth hwyr wedi ei dychwelyd.

### *Adrannau 54-61 – Asesiadau ACC*

57. Mae adran 54 yn caniatáu i ACC asesu'r dreth ddatganoledig sydd i'w chodi pan fo o'r farn bod angen gwneud iawn am dreth a gollwyd os nad aseswyd swm y dylid bod wedi ei asesu, os yw swm a aseswyd yn llai nag y dylasai fod, neu os yw ymwared a roddwyd yn ormodol neu wedi dod yn ormodol.

58. Mae adran 55 yn darparu y caiff ACC wneud asesiad er mwyn adennill ad-daliad treth gormodol, gan gynnwys unrhyw log y gellid bod wedi ei dalu.

59. Mae adrannau 56 a 57 yn darparu bod cyfeiriadau at "asesiad ACC" i olygu asesiadau a wneir o dan adrannau 54 neu 55 a bod cyfeiriadau at y trethdalwr o dan adrannau 58 i 61 i olygu'r person y mae'r dreth ddatganoledig i'w chodi arno, ac mewn perthynas ag asesiad i adennill ad-daliad treth gormodol, y person y gwnaed yr ad-daliad treth gormodol iddo.

60. Mae adran 58 yn cyfyngu ar yr amgylchiadau pan ganiateir i ACC wneud asesiad i ddau achos. Yr achos cyntaf yw sefyllfa sy'n codi o ganlyniad i ymddygiad diofal neu fwriadol y trethdalwr (a ddiffinnir yn adran 60), person sy'n gweithredu ar ran y trethdalwr neu berson a oedd mewn partneriaeth (a ddiffinnir yn adran 192) â'r trethdalwr ar yr adeg berthnasol. Yr ail achos y caniateir gwneud asesiad ynddo yw amgylchiadau pan nad oes gan ACC hawl i gynnal ymholiad i ffurflen dreth (fel arfer am fod y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny wedi dod i ben) neu bod ACC wedi cynnal ymholiad, ac ar yr adeg y daeth yr ymholiad i ben (neu y daeth hawl ACC i gynnal ymholiad i ben), na fyddai wedi bod yn rhesymol disgwyl i ACC fod yn ymwybodol o'r wybodaeth y mae'n ystyried yn awr y gallai arwain at golli treth neu ad-daliad treth gormodol yn ystod cyfnod yr ymholiad. Mae is-adran (4) yn gwahardd ACC rhag gwneud asesiad o dan y darpariaethau hyn os gellir priodoli'r sefyllfa i gamgymeriad wrth gyfrifo'r rhwymedigaeth i dreth a oedd yn gyson â'r arfer a oedd yn bodoli'n gyffredinol ar yr adeg y dychwelwyd y ffurflen.

61. Mae adran 59 yn darparu'r terfynau amser ar gyfer asesiadau ACC. Y terfyn amser cyffredinol yw 4 blynedd ar ôl y dyddiad ffeilio, neu 4 blynedd ar ôl y dyddiad y dychwelwyd y ffurflen dreth os oedd hynny'n hwyrach. Caiff y terfyn amser hwn ei ymestyn i 6 mlynedd os gellir priodoli colli'r dreth i ddiofalwch ar ran y trethdalwr neu berson cysylltiedig, neu 20 mlynedd pan fo colli'r dreth wedi ei beri'r fwriadol gan y trethdalwr neu gan berson cysylltiedig. Nid yw asesiad ACC i adennill ad-daliad treth gormodol yn hwyr os caiff ei wneud o fewn 12 mis i'r ad-daliad hwnnw (hyd yn oed mewn achosion pan fyddai, fel arall, oddi allan i'r terfyn amser o 4, 6 neu 20 mlynedd). Os yw trethdalwr wedi marw, rhaid i ACC gynnal asesiad o gynrychiolwyr personol trethdalwr o fewn 4 blynedd i'r farwolaeth, a dim ond os nad oedd y dyddiad perthnasol yn gynharach na 6 mlynedd cyn y farwolaeth. Mae'r adran hefyd yn egluro bod rhaid

i unrhyw wrthwynebiad i asesiad gan ACC ar sail y terfynau amser gael ei wneud ar ffurf adolygiad neu apêl yn erbyn yr asesiad o dan Ran 8.

62. Mae adran 61 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC ddyroddi hysbysiad am asesiad i'r trethdalwr. Mae'n ofynnol i'r trethdalwr dalu'r swm a aseswyd o fewn 30 o ddiwrnodau i'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.

### *Adrannau 62-67 – Ymwared yn achos asesiad gormodol neu dreth a ordalwyd*

63. Mae adran 62 yn darparu y caiff trethdalwr wneud hawliad i ACC am ymwared os yw'n credu ei fod wedi ei asesu fwy nag unwaith ar gyfer yr un mater.

64. Mae adran 63 yn darparu y caiff trethdalwr wneud hawliad i ACC am ad-daliad os yw wedi talu treth y mae'n credu nad oedd i'w chodi arno. Mae hefyd yn darparu, os asesir neu ddyfernir bod swm o dreth i'w godi ar berson, a'i fod yn credu na ddylid codi'r dreth arno, y caiff wneud hawliad i gael ei ryddhau o fod yn agored i'r dreth (hynny yw, ni fydd rhaid iddo dalu).

65. Mae adran 64 yn darparu y caiff ACC wrthod hawliad am ymwared ar y sail y byddai ei dalu yn cyfoethogi'r person sy'n gwneud yr hawliad mewn modd anghyfiawn. Gallai hyn ddigwydd mewn amgylchiadau pan nad y person a oedd yn ysgwyddo cost y dreth yn y pen draw oedd y person a dalodd y dreth ddatganoledig. Er enghraifft, yn achos treth dirlenwi gweithredwr y safle tirlenwi sy'n talu'r dreth, ond yn gyffredinol, y rheini y codir tâl arnynt am waredu'r gwastraff yn y safle tirlenwi sy'n ysgwyddo'r gost.

66. Mae adran 65 yn darparu ar gyfer amgylchiadau pan fo treth ddatganoledig i'w had-dalu neu ei rhyddhau pan wnaed y taliad yn wreiddiol gan berson heblaw'r trethdalwr, neu pan oedd y person arall hwnnw'n ysgwyddo cost y taliad treth yn y pen draw (ee fel cwsmer i'r trethdalwr y trosglwyddwyd cost y rhwymedigaeth i dreth iddo fel rhan o gost nwyddau neu wasanaethau y talodd i'r trethdalwr amdanynt). Dylai colled neu niwed sy'n gysylltiedig â rhagdybiaethau anghywir ynghylch treth a wnaed gan drethdalwr gael eu heithrio o ystyriaeth ynghylch a fyddai trethdalwr yn cael ei gyfoethogi mewn modd anghyfiawn, ac eithrio i'r graddau y mae'r trethdalwr yn gallu dangos bod swm y gellir ei faintioli o golled neu niwed wedi dod i ran y trethdalwr mewn gwirionedd, o ganlyniad i'r rhagdybiaethau anghywir hynny, y gellid digolledu amdanynt.

67. Mae adran 66 yn darparu, mewn perthynas â phan fo ACC yn dyfarnu a fyddai ad-daliad neu ymwared yn cyfoethogi'r hawlydd yn anghyfiawn (sef y sail ar gyfer gwrthod hawliad yn unol ag adran 64), y caniateir gwneud rheoliadau sy'n rhoi trefniadau talu'n ôl yn eu lle. Bwriad y trefniadau y byddai'r rheoliadau hyn yn eu rhoi yn eu lle fyddai atal y trethdalwr rhag cael ei gyfoethogi'n anghyfiawn ac ni fyddai hawliad am ymwared yn cael ei ganiatáu oni bai bod y trethdalwr wedi cydymffurfio â'r rheoliadau hynny.

68. Mae adran 67 yn rhoi rhestr o sefyllfaoedd (ac eithrio cyfoethogi anghyfiawn) lle nad oes angen i ACC roi effaith i hawliad am ymwared o dan adran 63.

### *Adrannau 68-73 – Gweithdrefn ar gyfer gwneud hawliadau, cadw cofnodion a'u storio'n ddiogel a diwygio a chywiro hawliadau*

69. Mae adran 68 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n dymuno gwneud hawliad am ymwared o dan amgylchiadau asesiad dwbl (adran 62), neu ar gyfer treth a ordalwyd (adran 63), wneud hynny yn y modd a bennir gan ACC. Rhaid i hawliad ddarparu datganiad gan yr hawlydd fod y manylion a ddarparwyd wedi eu datgan yn gywir. Caiff ACC hefyd ei gwneud yn ofynnol i roi manylion swm y dreth ddatganoledig sydd i'w ryddhau neu ei ad-dalu a gwybodaeth ategol er mwyn penderfynu ar gywirdeb yr hawliad. Ni chaniateir gwneud hawliad o dan adran 63 drwy ei gynnwys mewn ffurflen dreth.

70. Mae adran 69 yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy’n gwneud hawliad gadw’r holl gofnodion sy’n angenrheidiol ac yn berthnasol i ategu’r cais, a storio’r cofnodion yn ddiogel am y cyfnodau a bennir. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu pa gofnodion a dogfennau ategol y mae angen eu cadw a’u storio’n ddiogel. Mae is-adran (5) yn diffinio dogfennau ategol. Mae adran 70 yn nodi sut y gellir bodloni’r ddyletswydd a osodir ar drethdalwr i storio cofnodion yn ddiogel. Mae adran 71 yn darparu y caiff person sy’n gwneud hawliad ei ddiwygio, ar yr amod y gwneir hynny drwy hysbysiad ac o fewn y cyfnod a nodir.

71. Mae adran 72 yn caniatáu i ACC ddiwygio hawliad er mwyn cywiro unrhyw wallau neu hepgoriadau amlwg. Rhaid i ACC hysbysu’r hawlydd yn ysgrifenedig os yw’n gwneud diwygiad er mwyn cywiro gwall mewn hawliad, a gall yr hawlydd wrthod cywiriad ACC os yw’n rhoi hysbysiad i ACC. Nodir manylion y terfynau amser yn y darpariaethau. Mae adran 73 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC roi effaith i hawliad cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl iddo gael ei wneud.

### *Adrannau 74–77 - Ymholiad ACC i hawliad*

72. Mae adran 74 yn darparu y caiff ACC wneud ymholiad i hawliad neu ddiwygiad o hawliad, ar yr amod ei fod yn gwneud hynny o fewn 12 mis ar ôl i’r hawliad gael ei wneud a’i fod yn hysbysu’r hawlydd o’i fwriad i wneud hynny. Dim ond un hysbysiad ymholiad a ganiateir ar gyfer pob hawliad.

73. Dyroddir hysbysiad cau o dan adran 75 gan ACC er mwyn cwblhau ymholiad. Mae’r hysbysiad cau yn hysbysu’r hawlydd beth yw casgliadau’r ymholiad ac yn diwygio’r hawliad os oes angen. O dan adran 76 gall hawlydd ofyn i’r tribiwnlys gyfarwyddo ACC i roi hysbysiad cau o fewn cyfnod penodedig. Yn y sefyllfa hon, rhaid i’r tribiwnlys gyfarwyddo ACC i ddyroddi’r hysbysiad cau o fewn cyfnod penodedig oni bai bod ACC yn ei fodloni bod seiliau rhesymol dros beidio â gwneud hynny. Mae adran 77 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC weithredu ar gasgliadau’r hysbysiad cau o fewn 30 o ddiwrnodau.

### *Adran 78 – Terfyn amser ar gyfer gwneud hawliadau*

74. Mae’r adran hon yn darparu bod rhaid i hawliadau am ymwared rhag asesiad dwbl neu ordaliad treth a wneir o dan adran 62 neu 63 gael eu gwneud o fewn 4 blynedd i’r dyddiad yr oedd yn ofynnol dychwelyd y ffurflen dreth, a bod rhaid iddynt gael eu gwneud ar wahân i unrhyw ffurflen dreth a ddychwelir i ACC (os nad yw ffurflen wedi ei dychwelyd hyd yma gellir gwneud unrhyw beth y gellid ei gynnwys mewn hawliad o fewn ffurflen dreth beth bynnag).

### *Adran 79 - Yr hawlydd: partneriaethau*

75. Mae’r adran hon yn darparu, pan fo gordaliad wedi ei wneud ar ran partneriaeth, mai dim ond rhywun sydd wedi ei enwebu i weithredu ar ran yr holl bartneriaid a fyddai wedi bod yn agored i’r dreth, pe byddai’r asesiad neu’r dyfarniad wedi bod yn gywir, all wneud hawliad am ymwared rhag gordaliad.

### *Adran 80 – Asesiad o hawlydd mewn cysylltiad â hawliad*

76. Mae’r adran hon yn darparu, pan wneir hawliad am ymwared rhag treth a ordalwyd, a bod y seiliau ar gyfer yr hawliad hwnnw hefyd yn seiliau i ACC asesu’r hawlydd mewn perthynas â’r dreth, y gall ACC ddiystyru cyfyngiadau penodol ar ei allu i wneud asesiad. Mae’r rhain yn cynnwys diystyru’r ffaith bod terfyn amser wedi dod i ben. Mae hefyd yn darparu nad yw hawliad am ymwared rhag gordaliad wedi ei ddyfarnu’n derfynol hyd nes y bydd y swm y mae’n ymwneud ag ef wedi ei ddyfarnu’n derfynol (ee yn dilyn canlyniad adolygiad neu apêl).

### *Adran 81 – Setliadau contract*

77. Mae’r adran hon yn gymwys i adran 63 (Hawlio ymwared rhag treth a ordalwyd etc.) mewn amgylchiadau pan fo swm a dalwyd mewn cysylltiad â threth ddatganoledig wedi ei dalu’n unol â setliad contract ond nad y person a dalodd ACC yw’r trethdalwr a oedd yn agored i dalu’r dreth. Mae adran 81 yn nodi goblygiadau trefniant o’r fath ar hawliad o dan adran 63.